# Tâl Mamolaeth Statudol (SMP)

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith
a Phensiynau

## Os ydych yn gyflogwr

Mae'n rhaid i chi gwblhau'r ffurflen hon pan nad oes hawl gan gyflogai i gael Tâl Mamolaeth Statudol (SMP), neu pan na allwch barhau i dalu SMP. Cwblhewch bob rhan o'r ffurflen.

Bydd y wybodaeth a roddir gennych yn y ffurflen hon yn helpu'r Ganolfan Byd Gwaith i benderfynu ar gais eich cyflogai am Lwfans Mamolaeth.

**Pan fyddwch wedi cwblhau'r ffurflen hon, rhaid i chi ei rhoi i'r cyflogai gyda'r Dystysgrif Mamolaeth MAT B1W wreiddiol y gwnaeth eich cyflogai ei rhoi i chi.** Yna gallai wneud cais am fudd-dal.

I gael mwy o wybodaeth am SMP ewch i
**www.gov.uk/employers-maternity-pay-leave**

Neu gallwch gysylltu â llinell gymorth Cyflogwyr Cyllid a Thollau EM ar **0300 200 3200**.

## Os mai chi yw'r cyflogai

Rhoddodd eich cyflogwr y ffurflen hon i chi gan na allwch gael SMP, neu na all eich cyflogwr dalu SMP mwyach. Gallwch weld y rheswm dros hyn yn **Rhan D**.

**Os byddwch yn anghytuno â phenderfyniad eich cyflogwr dros beidio â thalu SMP i chi, gofynnwch i'ch cyflogwr egluro hynny i chi.**
Os ydych yn dal yn ansicr, gallwch ddefnyddio'r cyfrifiannell SMP i gyfrifo pa SMP y dylech ei gael. Ewch i
**www.gov.uk/calculate-your-maternity-pay**

Gofynnwch i'ch cyflogwr am reswm os credwch
- bod ei benderfyniad i beidio â thalu SMP yn anghywir
- nad ydych yn cael y swm cywir o SMP.

Os ydych yn dal i anghytuno, gallwch ffonio llinell ymholiadau cyflogai Cyllid a Thollau EM ar **0300 200 3500** am gyngor.

## Rhan A: Eich cyflogai

Cwblhewch y ffurflen hon mewn INC DU a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU

| | |
|---|---|
| **Cyfenw neu enw teuluol** | Mrs/Miss/Ms |
| **Pob enw arall, yn llawn** | |
| **Cyfeiriad** | <br><br><br>Cod post |
| **Rhif Yswiriant Gwladol (YG)** | Llythrennau Rhifau Llythren |
| **Rhif cloc, cyflogres neu gyflogai** | |

## Rhan B: Pam na allaf dalu SMP i chi

Rwyf wedi ticio'r blwch sy'n berthnasol i chi.

☐ Ni allaf dalu SMP i chi.
**Rwyf wedi ticio un o'r blychau yn Rhan D o'r llythyr hwn i ddweud pam wrthych.**

☐ Ni allaf dalu rhagor o SMP ar ôl yr wythnos sy'n diweddu ar / / .
**Rwyf wedi ticio un o'r blychau yn Rhan D o'r llythyr hwn i ddweud wrthych pam na allaf barhau i'ch talu ar ôl y dyddiad hwn.**

## Rhan C: Y dyddiadau pwysig rydym wedi ei ddefnyddio ar gyfer eich cais am SMP

| | | |
|---|---|---|
| • **Yr wythnos rydych yn disgwyl eich baban** | Y dydd Sul ar ddechrau'r wythnos honno yw | / / |
| • **Yr wythnos gymhwyso ar gyfer SMP sef 15 wythnos cyn yr wythnos rydych yn disgwyl i'ch babi gael ei eni** | Y dydd Sul ar ddechrau'r wythnos honno yw | / / |
| • **Eich Cyfnod Tâl Mamolaeth.** Eich Cyfnod Tâl Mamolaeth yw'r cyfnod pryd y gallech gael SMP. | Mae/Byddai eich Cyfnod Tâl Mamolaeth yn dechrau/wedi dechrau ar | / / |

Os gwnaethoch roi eich Tystysgrif Feddygol **MAT B1W** i mi, rwyf wedi'i dychwelyd atoch gyda'r ffurflen hon.

Os hoffech ofyn unrhyw beth i mi am y ffurflen hon, cysylltwch â mi.

# Rhan CH: Pam na allaf dalu SMP i chi

**Rwyf wedi ticio'r blychau isod i ddweud wrthych pam na allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol (SMP).**

| | |
|---|---|
| ☐ **Nid oeddech yn gweithio i mi am gyfnod digon hir** | I gael SMP mae’n rhaid eich bod wedi cael eich cyflogi gennyf am gyfnod parhaus o 26 wythnos o leiaf i mewn i’r 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i’ch babi cael ei eni. Hyd yn oed os caiff eich babi ei eni’n gynnar, ni fyddech wedi cael eich cyflogi gennyf am gyfnod parhaus o 26 wythnos o leiaf i mewn i’r 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i’ch babi cael ei eni. |
| ☐ **Nid oedd eich enillion wythnosol ar gyfartaledd yn ddigon uchel** | I gael SMP mae’n rhaid i’ch enillion wythnosol ar gyfartaledd cyn didynnu treth ac Yswiriant Gwladol fod o leiaf yn gyfartal â’r Terfyn Enillion Is.<br><br>Rwyf wedi cyfrifo eich enillion ar eich holl enillion a budd-daliadau contract yr ydych yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol arnynt. Mae gan rai cyflogwyr drefniadau arbennig ar gyfer talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar rai taliadau ar ran treuliau. Yn ôl y gyfraith, mae’n rhaid i mi gynnwys yr enillion hyn yn y cyfrifiad, ac rwyf wedi gwneud hyn. |
| ☐ **Ni wnaethoch roi gwybod i mi mewn da bryd y byddwch yn rhoi’r gorau i weithio i gael eich babi** | I gael SMP mae’n rhaid i chi roi o leiaf 28 diwrnod o rybudd i mi o’r dyddiad y byddwch yn rhoi’r gorau i weithio i gael eich babi a dechrau eich SMP.<br><br>Nid oedd gennych reswm da dros roi llai o rybudd na hyn i mi. |
| ☐ **Ni wnaethoch roi dystiolaeth feddygol i mi mewn da bryd** | Er mwyn cael SMP, mae’n rhaid i chi roi eich Tystysgrif Mamolaeth Mat B1W, neu dystiolaeth dderbyniol arall i mi, o fewn 3 wythnos cyn cychwyn eich Cyfnod Tâl Mamolaeth.<br><br>Pe byddai gennych reswm da dros gymryd mwy o amser na hyn, dim ond hyd at 13 wythnos y gallwn ei ganiatáu i chi roi’r dystiolaeth hon i mi. |
| ☐ **Ni wnaethoch roi gwybod i mi mewn da bryd fod eich baban wedi cael ei eni** | Er mwyn cael SMP, mae’n rhaid i chi ddweud wrthyf am eich baban o fewn 28 diwrnod i’r dyddiad y cafodd eich babi ei eni.<br><br>Nid oedd gennych reswm da dros gymryd mwy o amser i ddweud wrthyf am hyn. |
| ☐ **Roeddech yn y ddalfa** | Ni allwch gael SMP os ydych yn y ddalfa ar ddechrau eich Cyfnod Tâl Mamolaeth.<br><br>Os ydych wedi bod yn cael SMP, ni fyddwch yn ei gael yn y ddalfa. |
| ☐ **Rydych wedi dechrau gwaith ar ôl yr enedigaeth** | Ni allwch gael SMP os ydych wedi dechrau gwaith ar ôl yr enedigaeth, ar gyfer cyflogwr nad oedd yn eich cyflogi yn y 15fed wythnos cyn roeddech yn disgwyl eich babi. |

## Rhan D: Datganiad y cyflogwr

**Rwyf yn datgan** bod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

| | |
|---|---|
| **Enw'r cyflogwr** | |
| **Llofnod y cyflogwr** | |
| **Dyddiad** | / / |
| **Eich swydd yn y cwmni** | |
| **Rhif ffôn** | |
| **Rhif ffacs** | |
| **Cyfeiriad e-bost** | |
| **Cyfeiriad cyflogwr** | |
| | |
| | |
| | Cod post |
| **Stamp cyflogwr** | |

## Beth i'w wneud nawr

Gallwch hawlio Lwfans Mamolaeth gan y Ganolfan Byd Gwaith.

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael ffurflen gais **MA1W** ar **0800 012 1888**.

Neu gallwch lawrlwytho'r ffurflen gais yn **www.gov.uk/maternity-allowance/how-to-claim**

Os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 023 48 88**.

Cwblhech y ffurflen gais **MA1W** a'i hanfon i:
Wrexham Maternity Allowance
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 1SU
gyda'ch Tystysgrif Feddygol **MAT B1W**.

Mae'n rhaid i chi wneud cais am Lwfans Mamolaeth yn brydlon. Os ydych yn gwneud cais am Lwfans Mamolaeth mwy na thri mis ar ôl y dyddiad y bydd disgwyl i'ch Lwfans Mamolaeth ddechrau, byddwch yn colli arian.

I gael mwy o wybodaeth am eich hawliau mamolaeth, Tâl Mamolaeth Statudol a Lwfans Mamolaeth ewch i **www.gov.uk/cymraeg**

Ceir mwy o wybodaeth am fudd-daliadau mamolaeth yn nhaflen **NI17A** *A guide to Maternity Benefits*. Gallwch ddod o hyd i'r canllaw yn **www.gov.uk/government/publications**

Noder, nid yw'r ffurflen hon yn gais am Lwfans Mamolaeth. Mae'n rhaid i'ch cyflogwr gwblhau'r ffurflen hon er mwyn cefnogi eich cais am Lwfans Mamolaeth.